# Ymgysylltiad Safle Strategol ym Mwrdeistref Sirol Conwy gan Gymorth Cynllunio Cymru: Adroddiad Chwarel Llanddulas

## 1. Cefndir

Comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan Gyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Conwy ym mis Medi 2023 i ddarparu digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned anstatudol ar y 5 Safle Strategol a awgrymwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw mewn perthynas â Safle Strategol Chwarel Llanddulas. Mae'n crynhoi'r adborth a gafwyd gan gymunedau lleol a gymerodd ran yn y digwyddiadau ar gyfer y safle a gyflwynwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru. Mae'r adroddiad hwn a'r holl sylwadau ychwanegol a gafwyd trwy e-bost yn cael eu cyflwyno i CBS Conwy sy'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i lywio'r cam archwilio'r cynllun gan y cyhoedd.

Fel sefydliad sy'n cefnogi ymgysylltu â'r gymuned yn y broses gynllunio, mae Cymorth Cynllunio Cymru ond yn gwneud comisiynau sy'n:

1. Cyd-fynd â'i genhadaeth ar gyfer system gynllunio decach, mwy tryloyw a mwy ymatebol.
2. Mae'n credu y gall ychwanegu gwerth i ymgynghoriad cynllunio / proses ymgysylltu ac y bydd yn caniatáu i fwy o bobl gael dweud eu dweud yn fwy ystyrlon yn y broses honno.

Yn ogystal â bodloni'r blaenoriaethau hyn, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn croesawu'r gweithgaredd ymgysylltu hwn yn arbennig. Er bod gwersi wedi'u dysgu y gellir eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol, mae'n mynd y tu hwnt i beth sydd angen i Awdurdod Cynllunio Lleol ei wneud mewn rheoliadau cynllunio - mae'r ymarfer cyfan yn cael ei gyflwyno yn ogystal ag ymgynghoriadau 'statudol' sydd wedi ac a fydd yn cael eu cynnal ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd hwn.

## 2. Cwmpas a Methodoleg

Bwriad y gwaith ymgysylltu hwn oedd edrych ar safbwyntiau cynrychiolwyr cymunedol ynglŷn â sut y gellir datblygu'r safleoedd yn y dyfodol. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio polisïau safle penodol / Cynlluniau Lleoedd / Briffiau Safle / Uwchgynlluniau (neu hyd yn oed ceisiadau cynllunio) a bydd yn llywio'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy i'w Archwilio yn 2024. Roedd cwmpas y prosiect gwreiddiol yn cynnwys darparu un digwyddiad wyneb yn wyneb ac un digwyddiad ar-lein fesul safle (cyfanswm o 10 digwyddiad) rhwng Hydref a Rhagfyr 2023. Roedd diffyg lleoliadau ar gael yn golygu na fu'n bosibl cynnal yr holl ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn ac nad oedd digon o amser i hysbysebu, ac o ganlyniad cytunwyd y byddai rhai digwyddiadau'n cael eu symud i Ionawr 2024 ac y byddai digwyddiadau ychwanegol yn cael eu cynnal yn dibynnu ar alw.

Mae'r prosiect wedi denu adborth sylweddol ar gyhoeddusrwydd y digwyddiadau gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gwneud pob ymdrech i addasu natur y gweithgareddau yn briodol ac yn anffodus, nid oedd modd defnyddio rhestrau cyswllt y Cynllun Datblygu Lleol presennol oherwydd rhesymau Diogelu Data. O ganlyniad, mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gwneud gwaith ychwanegol y tu hwnt i gwmpas y cynnig gwreiddiol, gan gynnwys paratoi a phostio llythyrau at drigolion sy'n agos at y safle (gweler adran 3, isod), a chynnal digwyddiad wyneb yn wyneb arall yn Llysfaen i sicrhau bod yr ymarfer yn cyrraedd cynulleidfa ehangach. Ar gais Aelod Etholedig lleol o CBS Conwy, trefnwyd y digwyddiad ychwanegol yn Llysfaen yn rhannol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch parcio a hygyrchedd y digwyddiad yn Ysgol Llanddulas.

Dilynodd y digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb yr un fformat yn fras. Bu i Gymorth Cynllunio Cymru roi cyflwyniad ac yna cynnal trafodaeth cynulleidfa ynghylch set o destunau eang oedd yn gorgyffwrdd. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am:

1. Swyddogaeth Cymorth Cynllunio Cymru a natur y digwyddiadau.

2. Trosolwg cryno o broses paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, dyraniadau tir, safleoedd ymgeisiol a sut mae CDLlau yn dylanwadu ar benderfyniadau ceisiadau cynllunio.
3. Crynodeb o'r gweithgareddau sydd eisoes wedi'u cynnal ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy hyd yma (gan gynnwys ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir yn 2019) a'r ymgynghoriad Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd a ddisgwylir yn 2024.
4. Diffiniad o Safleoedd Strategol, a sut maent yn cael eu hasesu a'u dethol.
5. Targedau presennol ar gyfer yr awdurdod (4,300 o gartrefi gan gynnwys 700/20% wrth gefn a 1,500 o swyddi ar 16.4ha o dir cyflogaeth).
6. Adolygiad o'r dyraniad safle a fwriedir yn Strategaeth a Ffefrir 2019 a chymhariaeth â'r cynnig presennol.
7. Mae manylion y cynnig presennol fel a ganlyn:
    a. Dyraniad Safle Strategol newydd fel tir cyflogaeth ar gyfer defnydd cyflogaeth gymysg:
        1. B1 – Busnes, diwydiant ysgafn a busnesau newydd
        2. B2 – Diwydiannol Cyffredinol, busnesau newydd
        3. B8 - Storio a dosbarthu
    b. Adleoli cyfleuster rheoli gwastraff presennol a fferm solar newydd. Cyflwynwyd y safle fel safle ymgeisiol ond ni chafodd ei ddyrannu fel Safle Strategol o fewn y Strategaeth a Ffefrir.
    c. Byddai'r safle'n cynnwys creu 'platfformau' newydd h.y. mewnlenwi pyllau chwarel i greu tir gwastad.
    d. Mae'r safle wedi'i rannu'n bedair 'ardal':
        1. Ardal 1, rhan fwyaf gogleddol y safle a oedd yn arfer bod yn ardal brosesu ac sy'n cynnwys Odynau Calch o'r 18fed Ganrif.
        2. Ardal 2, Gogledd-orllewin, lleoliad yr orsaf Trosglwyddo Gwastraff bresennol, a fydd yn cael ei hadleoli yn Ardal 4.
        3. Ardal 3, Gogledd-ddwyrain, safle lagŵn mawr / pyllau chwarel.
        4. Ardal 4, y rhan fwyaf o ran maint ar y safle a'r mwyaf deheuol, lleoliad hen safle tirlenwi (rhan ogleddol ardal 4 yn cael ei hadfer ar hyn o bryd). Lleoliad posibl ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (ffermydd

solar) i'r safle gwasanaethu a'r safle targed er mwyn adleoli'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff (40-50m o dan lefel y ddaear). Cadw’r cyfleusterau trin trwytholch presennol a’r safle compostio.

Aeth Cymorth Cynllunio Cymru i'r afael â chwestiynau gweithdrefnol lle bynnag y bo'n bosibl a gofynnodd gwestiynau dilynol i archwilio materion ymhellach lle bo'n briodol, pwysleisiwyd hefyd y byddai unrhyw adborth (gan gynnwys cwestiynau) a gesglir yn cael ei gyflwyno'n ôl i CBS Conwy gair am air.

Ar gyfer y digwyddiad ar-lein, cafodd y sesiwn gyfan ei recordio a chafodd adborth gan gyfranogwyr ei drawsgrifio. Ar gyfer y sesiynau wyneb yn wyneb, cafodd y cyfranogwyr gopïau papur o’r map safle a thaflenni ysgogi trafodaeth a chawsant wahoddiad i gofnodi eu hadborth naill ai’n uniongyrchol ar y taflenni neu ar nodiadau gludiog.

Hwyluswyd pedwar testun trafod eang fel a ganlyn:

1. **Argraffiadau Cyntaf**, ble gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau cychwynnol ar unrhyw destun.
2. **Gwybodaeth Leol,** ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ddisgrifio cymeriad y safle presennol ar hyn sydd o’i amgylch a rhannu eu safbwyntiau ar y cais a’r effeithiau yng nghyd-destun y wybodaeth hon.
3. **Dylunio Safle**, ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried goblygiadau dylunio mewn perthynas â mynediad / priffyrdd, symudiad ar draws y safle, Teithio Llesol, ffurf a natur man agored, materion amgylcheddol, diogelwch ac unrhyw welliannau posibl a fyddai’n gwneud y dyraniad yn well.
4. **Blaenoriaethau cymunedol,** ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried anghenion y gymuned, bylchau mewn darpariaeth ac unrhyw welliannau neu fuddion y gallai’r safle eu creu.

Cyflwynir crynodeb o’r adborth a gasglwyd fel rhan o’r ymarfer yn rhan 4, isod. Mae atodiad A yn cyflwyno’r adborth llawn fel a gyflwynwyd yn y ddau ddigwyddiad. Pwysleisiwyd hefyd y gellir darparu sylwadau pellach yn ysgrifenedig erbyn 19 Ionawr 2024, mae’r holl ohebiaeth a gafwyd wedi ei roi i CBS Conwy gyda’r adroddiad hwn. Mae crynodeb o’r sylwadau ychwanegol a gafwyd yn Atodiad B (SYLWER: ni chyhoeddwyd y sylwadau llawn yn yr adroddiad hwn am resymau Diogelu Data).

### 3. Hysbysebu, archebu ac adborth ar gyhoeddusrwydd

Gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol yn CBS Conwy, bu i Gymorth Cynllunio Cymru baratoi hysbysebion aml-sianel oedd yn cynnwys:

- Cyflwynwyd hysbysiadau e-bost i gynrychiolwyr lleol yn unol ag ymchwil ar draws 9 categori (Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorau cyfagos, gwasanaethau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau lleol, cynrychiolwyr busnesau lleol ac 'eraill' megis cyfryngau lleol a grwpiau anodd eu cyrraedd). Mewn achosion o'r fath, roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn dibynnu ar wybodaeth oedd ar gael yn gyhoeddus neu y gellir dod o hyd iddi trwy chwilio ar y rhyngrwyd.
- Cyhoeddwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CBSC.
- Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg leol trwy dîm y wasg CBSC.
- Rhannwyd manylion ar wefan CBSC.
- Dosbarthwyd posteri i leoliadau priodol, e.e. neuaddau Cyngor Tref, eglwysi a siopau yn agos at bob safle.
- Anfonwyd llythyrau i eiddo cyfagos neu ger y safleoedd dan sylw.

Roedd pob hysbysiad e-bost yn gwahodd cyfranogwyr i rannu'r gwahoddiadau gyda'u rhwydweithiau lleol. Mewn rhai achosion, denodd hyn sylw sylweddol gan y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg.

Roedd pob hysbysiad yn cynnwys dolen i ffurflen archebu digwyddiad ar lwyfan Eventbrite a ddefnyddiwyd er mwyn i Gymorth Cynllunio Cymru fedru cynllunio o amgylch y niferoedd yn y digwyddiadau.

Ymchwiliwyd i a chysylltwyd â 65 o negeseuon e-bost [1]a phostiwyd 143 o lythyrau at feddianwyr eiddo sydd agosaf at y safle. Gwelir isod yr archebion a'r cyfranogiad

[1] 1 Yn dangos nifer y cyfeiriadau e-bost unigryw a ymchwiliwyd ar gyfer grwpiau lleol a oedd ar gael yn gyhoeddus trwy Google Search. Mae'n bosibl fod Cymorth Cynllunio Cymru a CBS Conwy wedi cysylltu â chyfeiriadau'n annibynnol.

canlyniadol yn y digwyddiad: Dylid nodi bod rhai cyfranogwyr wedi mynychu dau neu fwy o ddigwyddiadau, ac felly nid yw ffigurau presenoldeb yn cynrychioli unigolion unigryw.

| **Digwyddiad** | **Archebion** | **Yn bresennol** |
|---|---|---|
| Chwarel Llanddulas - Ar-lein, 15 Tachwedd | 10 | 7 |
| Chwarel Llanddulas - Ysgol Llanddulas, 22 Tachwedd. | 26 | 37 |
| Chwarel Llanddulas - Llysfaen, 23 Tachwedd. | 32 | 53 |
| **Cyfanswm:** | **68** | **97** |

Adborth ar gyhoeddusrwydd

Gwnaed addasiadau wrth roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau ble bynnag fo’n bosib wrth i’r gweithgareddau ddatblygu ac yn unol â’r adborth a gafwyd gan aelodau lleol a’r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu trwy’r post, nad oedd yn rhan o gwmpas y prosiect yn wreiddiol.

Yn achos safle Chwarel Llanddulas, anfonwyd llythyrau at y 143 eiddo agosaf at y safle gan ddefnyddio cyfeiriadau a ganfuwyd trwy ddefnyddio system fapio ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan flaenoriaethu eiddo cyfagos/gyferbyn ar Dulas Close, Bryn Derw, Ffordd y Graig, Rhodfa Lwyd, Y Gilan, Rhodfa Wen, Copa'r Bryn, Tai Dulas, Ffordd Abergele, Ffordd Tan yr Allt, a Ffordd Pentregwyddel.

Dylid nodi, yn wahanol i arolwg cyhoeddus, ble gwahoddir y boblogaeth ehangaf bosibl i ddenu ystod o safbwyntiau, roedd y digwyddiadau hyn wedi eu dylunio i edrych a thrafod barn cynrychiolwyr cymunedol sy’n lleol i’r safleoedd. Er hynny, y prif bryderon a godwyd oedd:

- Nad oedd y digwyddiadau wedi eu hysbysebu’n ddigon eang ac nad oeddent wedi cyrraedd digon o bobl mewn pryd. Dywedodd sawl cyfranogwr eu bod wedi gweld erthygl yn y wasg leol yn y dyddiau cyn y gweithgaredd a’u bod yn pryderu nad oedd unrhyw un wedi cysylltu’n uniongyrchol â nhw – mae’n bosibl bod hyn yn gyfrifol am y niferoedd uwch o gyfranogwyr na niferoedd archebu.

Cyfyngwyd ar hysbysebu yn rhannol oherwydd yr amserlenni a sefydlwyd i gwblhau'r prosiect ac yn rhannol gan y cysylltiadau cyfyngedig a ellir eu rhoi i Gymorth Cynllunio Cymru. Hysbysebwyd pob digwyddiad i Aelodau Etholedig lleol, Cyngor Tref Llanddulas a Llysfaen, trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CBS Conwy, trwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy hysbysebu lleol a llythyrau.

- Nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd am y digwyddiadau yn ddigonol a chafwyd sawl cais am fwy o wybodaeth gan CBS Conwy a Chymorth Cynllunio Cymru. Er y gwnaed pob ymdrech i fod yn glir ynglŷn â natur y digwyddiadau yn yr hysbysebion cychwynnol, codwyd nifer o bryderon ynghylch diffyg gwybodaeth am y cynigion ar y safleoedd eu hunain. Er y pwysleisiwyd ar bob cyfle bod gwybodaeth gyfyngedig ar gael ar y cam hwn o'r broses CDLl Newydd ac mai nod yr ymarfer yw cefnogi'r ymgynghoriad statudol dilynol ar y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, bu i'r pryderon hyn barhau. Cyflwynodd Cymorth Cynllunio Cymru ddogfen 10 tudalen Cwestiynau Cyffredin ynglŷn â'r ymarfer a dosbarthodd sleidiau'r digwyddiad ar ôl y digwyddiad cyntaf ar bob safle o ganlyniad.

Yn seiliedig ar yr uchod, byddai Cymorth Cynllunio Cymru yn gwneud yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella cyhoeddusrwydd yn y dyfodol:

1. Canfod a chyhoeddi cwmpas a chyfyngiadau gweithgareddau o'r dechrau, rhoi hyd yn oed mwy o bwyslais ar wahodd cynrychiolwyr cymunedol i helpu i 'ledaenu'r neges'.
2. Caniatáu o leiaf 8 wythnos ar gyfer hysbysebu pob digwyddiad.
3. Sicrhau y sefydlir tudalen we gyda'r holl wybodaeth gefndirol, dolenni cyswllt i ymarferion blaenorol a manylion ynghylch sut i archebu lle mewn digwyddiadau cyn dechrau hysbysebu.
4. Ystyried lleoliadau mwy / mwy hyblyg, gan ystyried eu hagosrwydd at y safleoedd dan sylw.
5. Sicrhau bod y gofrestr CDLl ar gael / y gellir cael cyhoeddusrwydd trwy'r gofrestr.

## 4. Crynodeb o’r adborth ar Safle Chwarel Llanddulas

Bu i 97 o gyfranogwyr fynychu’r digwyddiadau a bu i 4 unigolyn arall anfon sylwadau trwy e-bost. Yn y digwyddiadau cafwyd cyfanswm o dros 437 o sylwadau unigol ar ystod eang o faterion yn ymwneud â gwybodaeth leol, dyluniad safle a blaenoriaethau cymunedol.

Argraff Cymorth Cynllunio Cymru oedd y byddai’r mwyafrif (ond nid o reidrwydd pob un) o’r cyfranogwyr a fynychodd yn debygol o wrthwynebu’r safle pe bai’r ymarfer wedi bod yn ymgynghoriad ffurfiol. Mynegodd cyfranogwyr a oedd yn cefnogi adeiladu tai newydd ‘mewn egwyddor’ bryderon hefyd am yr effeithiau cysylltiedig posibl.

Er bod y sesiynau wedi'u rhannu'n bedwar pwnc trafod eang, roedd pob pwnc yn gorgyffwrdd â'r llall, ac er hwylustod, mae'r crynodeb canlynol yn ystyried adborth o'r holl ddigwyddiadau a phynciau trafod ac mae wedi'i rannu'n i). Materion sy’n peri pryder a ii). Camau lliniaru a gwelliannau i’r safle.

### <u>i). Materion sy’n peri pryder i’r gymuned</u>

Mae’r pwyntiau canlynol wedi eu graddio yn ôl pa mor aml y’u nodwyd gan unigolion gwahanol ar draws pob digwyddiad a sylwadau ychwanegol a gafwyd trwy e-bost.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn o’r holl faterion a godwyd - gweler atodiadau A a B am nodiadau’r holl adborth a gafwyd. Roedd y meysydd pryder mwyaf cyffredin, yn nhrefn pa mor aml y’u codwyd (uchaf yn gyntaf) yn cynnwys:

### 1. Priodoldeb / addasrwydd yr hyn sy’n cael ei gynnig (66 o sylwadau)

1. Roedd y pryderon mwyaf cyffredin yn ymwneud ag egwyddor y dynodiad, colli cymeriad y safle (a oedd i fod i gael ei adfer), maint y safle a natur y defnyddiau arfaethedig. Roedd o leiaf 30 yn disgrifio cymeriad / tirwedd bresennol yr ardal fel un tawel, gwledig, gyda digonedd o fywyd gwyllt a chyrchfan dwristiaeth sy'n dibynnu ar gefn gwlad agored. Mae llawer o lwybrau troed a llwybrau cerdded / llwybrau cenedlaethol o amgylch y safle sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n cael llawer o ddefnydd ac roedd nifer o’r sylwadau yn nodi’r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd gerllaw. Roedd rhai o’r sylwadau yn nodi

y gallai'r safle o bosibl fod o werth archeolegol, gan fod adfeilion Rhufeinig, mwyngloddiau plwm, odynau calch a thwneli hanesyddol ar y safle neu'n agos ato. Nododd llawer fod ardaloedd preswyl tawel o amgylch y safle yn Llanddulas a Llysfaen a bod man chwarae ar Ffordd Pentregwyddel ger y safle.

2. Roedd llawer o'r sylwadau'n ddig gyda'r cynnig ar y sail bod y gymuned ar ddeall y byddai'r safle'n cael ei adfer a'i droi'n amwynder cymunedol unwaith y byddai gweithrediadau tirlenwi wedi dod i ben, a bod y dynodiad yn newid hyn. Cyfeiriodd nifer o'r cyfranogwyr at gytundeb gwreiddiol a wnaed 40 mlynedd yn ôl fel rhan o'r drwydded dirlenwi ac roedd y ffaith na ddarparwyd y cytundeb gwreiddiol hwn yn y gweithgaredd ymgysylltu yn bryder arbennig. Teimlai sawl un bod yr ardal wedi'i chanolbwyntio'n anghyfiawn ar gyfer defnyddiau fel tirlenwi, tyrbinau gwynt, rheoli gwastraff a chyfleusterau compostio ac y byddai'r cynnig hwn yn atal trigolion rhag mwynhau eu hamgylchedd ymhellach. Dywedodd eraill nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros symud yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff a holwyd pam nad oedd dewisiadau amgen gwastad mwy addas yn cael eu hystyried o wybod bod angen gwaith mewnlenwi helaeth (awgrymodd un y byddai chwarel Llansan Sior yn fwy addas). Mynegodd sawl un bryder ynghylch effaith negyddol ar brisiau eiddo yn yr ardal o ganlyniad i'r dyraniad.

**2. Effaith y cynigion (56 o sylwadau).**

1. Roedd llawer o bryderon yn ymwneud ag effaith y cynnig ar yr ardal, ar drigolion cyfagos, y dirwedd i'w hadfer a bywyd gwyllt lleol (roedd llawer o safleoedd nythu wedi'u nodi - gweler y map isod). Roedd llawer o sylwadau'n canolbwyntio ar faint a hyd y gwaith mewnlenwi i greu'r llwyfannau a lefel y ddaear, gyda phryderon ynghylch y llwch a'r sŵn y byddai'r gwaith hwn yn ei greu (e.e. peiriannau trwm i'w prosesu) a'r llygredd sy'n deillio o symudiadau cerbydau HGV i gludo deunyddiau. Roedd pryderon eraill yn ymwneud ag effeithiau parhaus y gweithrediadau tirlenwi, gan gynnwys monitro nwy Radon a Methan a draenio.

2. Codwyd nifer o bryderon ynghylch adleoli'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff i ardal 4, a fyddai'n arwain at weithgarwch newydd a pharhaus gan lorïau a chynhyrchu sŵn a llygredd mewn ardal y bwriadwyd ei hadfer yn wreiddiol; roedd rhai yn pryderu y byddai topograffeg ardal 4 yn arwain at chwyddo sŵn. Roedd eraill yn

pryderu bod y safle compost eisoes yn cynhyrchu arogl a thra bod y safle Trosglwyddo Gwastraff presennol yn caniatáu i arogleuon gael eu chwythu i ffwrdd gan wyntoedd arfordirol, byddai ei adleoli yn atal hyn rhag digwydd a byddai'r arogleuon hyd yn oed yn waeth. Roedd rhai yn pryderu y byddai caniatáu gweithrediadau gwastraff yn ardal 4 yn denu rhagor o 'ddiwydiannau hyll' dros amser.

3. Roedd eraill yn pryderu am effaith y gwaith hwn ar wasanaethau lleol (e.e. ysgolion, gwasanaethau meddygon) gan y gallai caniatáu datblygu cyflogaeth arwain at safleoedd tai yn y dyfodol. Cyfeiriodd sawl un at yr effeithiau uchod fel rhai a fyddai'n niweidiol i ansawdd bywyd, iechyd meddwl a chorfforol trigolion cyfagos. Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at effeithiau negyddol ar werth eiddo a thir trigolion cyfagos a busnesau lleol a byddai twristiaeth yn dioddef.

**3. Defnydd gwell / amgen ar gyfer y safle (33 o sylwadau).**

Roedd llawer o sylwadau'n cyfeirio at ystod eang o ddefnyddiau amgen neu atodol posibl a fyddai o fudd i'r gymuned gyda rhai'n awgrymu bod angen mwy o arloesi yn y cynnig hwn. Roedd rhai yn teimlo mai mân newidiadau heblaw am waith adfer / ailwylltio sydd eu hangen ar gyfer Ardal 4 a theimlai rhai bod y fferm solar yn addas ar gyfer yr ardal hon, er bod eraill yn amau a fyddai'r ynni a gynhyrchir o fudd i'r gymuned. Awgrymodd rhai, o ystyried maint y safle, y byddai o bosibl yn well rhannu'r dyraniad yn gyfres lai o ddefnyddiau, a allai gynnwys defnyddiau cyflogaeth (ar raddfa dechrau busnes), cadw ardaloedd ar gyfer gwarchodfeydd natur / ailwylltio a defnyddiau eraill a fyddai'n fwy addas ar gyfer twristiaeth a budd trigolion lleol. Awgrymwyd defnyddiau hamdden ac adloniant megis:

a. Chwaraeon awyr agored fel dringo creigiau, beicio mynydd a defnyddio'r lagŵn ar gyfer plymio, chwaraeon dŵr neu bysgota.
b. Mwy o lwybrau cerdded / llwybrau troed a thir parc
c. Amgueddfa hanes lleol i ddathlu hanes y chwareli, adfeilion Rhufeinig, mwyngloddiau plwm a phentrefi.

d. Gwarchodfeydd natur a/neu gyfleusterau addysg ar y safle fel canolfan wyddoniaeth a thechnoleg neu brosiectau amgylcheddol fel prosiect Eden.
e. Diwydiannau bach / busnesau newydd / busnesau crefft lleol.
f. Caffis / tafarndai / bwytai

**4. Effaith ar yr amgylchedd, cynefinoedd a bioamrywiaeth (25 o sylwadau)**

1. Fel y nodwyd uchod, roedd nifer fawr o sylwadau yn nodi'r safle a'i gyffiniau fel cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a dylid neilltuo gwarchodfa natur ar y safle (roedd rhai yn awgrymu mai parth 2 fyddai'r mwyaf addas). Roedd llawer o'r sylwadau hyn yn nodi bod adar yn nythu fel yr hebog tramor, bwncathod a chudyllod coch mewn lleoliadau penodol (gweler y map isod) ac y byddai'r gwaith mewnlenwi ac adleoli'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff yn dinistrio'r cynefinoedd hyn. Awgrymodd rhai bod angen cynnal arolwg ecolegol ar y safle ac y dylid dynodi rhannau ohono fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd y rhywogaethau prin yn yr ardal. Nododd un bod ffermydd solar yn cynhyrchu ymbelydredd a nododd un arall bod chwareli megis Merffordd wedi cael eu gadael i ddychwelyd i natur.

**5. Ni fu ymgysylltiad cymunedol yn ddigonol (21 o sylwadau)**

1. Mynegodd nifer o gyfranogwyr bryder nad oedd y gweithgaredd ymgysylltu hwn yn cyrraedd digon o drigolion lleol a mynegodd sawl un bryder yn y digwyddiadau nad oeddent wedi cael gwybod yn uniongyrchol. Roedd hyn yn peri mwy o bryder o wybod bod y safle i bob pwrpas yn ddyraniad newydd nad oedd wedi'i nodi fel safle strategol yn y Strategaeth a Ffefrir. Roedd rhai yn pryderu bod lefel y wybodaeth a ddarparwyd yn y digwyddiadau yn annigonol, nad oedd yr hwyluswyr yn ymwybodol o fanylion telerau'r drwydded dirlenwi, y byddai cynnig arall ar gyfer ceblau fferm wynt alltraeth yn effeithio ar y safle ac nad oedd y cynlluniau a ddarparwyd yn cynnwys digon o fanylion am waith presennol ar y safle. Roedd eraill yn pryderu nad oedd swyddogion CBS Conwy yn bresennol i ofyn cwestiynau, tra bod eraill yn teimlo mai 'ymarfer

papur' oedd hwn, bod ffurf y digwyddiadau yn nawddoglyd ac na wrandewir ar y bobl leol.

## 6. Mynediad, diogelwch priffyrdd a thrafnidiaeth (15 o sylwadau)


1. Yn ogystal â'r pryderon a godwyd ynghylch sŵn a llygredd yn deillio o gynnydd mewn cerbydau HGV o ganlyniad i'r cynlluniau, roedd nifer o'r sylwadau yn mynegi pryderon ynglŷn â mynediad i'r safle, lle y byddai wedi'i leoli a'r effaith bosibl y gallai hyn ei gael ar drigolion lleol. Nododd nifer ohonynt bryderon fod ffyrdd a phontydd presennol yn annigonol ac na ddylid darparu mynediad ar hyd Ffordd Pentregwyddel. Awgrymodd llawer y dylid osgoi defnyddiau yn Ardal 4 a oedd yn golygu symudiadau traffig (e.e. gorsaf Trosglwyddo Gwastraff) a bod ardaloedd 1,2 a 3 yn fwy addas. Ystyriwyd bod cludiant cyhoeddus yn annigonol yn yr ardal a bod angen ei wella.

## 7. Sylwadau eraill

1. Buddion cymunedol (8 o sylwadau) Awgrymwyd buddion i drigolion lleol (e.e. trwy gytundebau Adran 106) mewn ffurfiau amrywiol. Awgrymwyd gwella'r stoc tai presennol, gosod paneli solar a mentrau i leihau costau ynni presennol. Roedd syniadau eraill yn cynnwys adfywio'r ardal, gosod goleuadau stryd effeithlon, darparu meysydd chwarae yn Llanddulas a darparu mwy o dai, cefnogi gwasanaethau iechyd ac addysg lleol a darparu swyddi yn yr ardal.
2. Ynni Adnewyddadwy (7 o sylwadau). Roedd sawl un yn teimlo y dylai unrhyw waith cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle fod o fudd uniongyrchol i'r gymuned, er bod rhai yn bryderus ynghylch effaith cynlluniau o'r fath ynddynt eu hunain. Awgrymodd rhai y dylid gosod pympiau gwres o'r ddaear er budd trigolion lleol.
3. Roedd tri sylw arall yn cyfeirio at berchnogaeth tir ac yn ailadrodd gwrthwynebiad i unrhyw ddefnyddiau tirlenwi pellach.

Er bod gwybodaeth leol wedi'i hadlewyrchu ym mhob un o'r pwyntiau a godwyd, gwahoddwyd y cyfranogwyr hefyd i nodi materion ar fapiau ffisegol – darperir cyfuniad

o sawl map isod sy'n nodi materion / pryderon presennol yn ogystal â chamau lliniaru a gwelliannau:




## <u>ii). Camau Lliniaru a Gwelliannau</u>

Er bod nifer o gyfranogwyr yn teimlo bod y dyraniad yn amhriodol mewn egwyddor, roedd nifer yn fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau a chyflwyno awgrymiadau yn ymwneud â dyluniad posibl y safle, camau lliniaru yn erbyn effeithiau a blaenoriaethau ar gyfer y gymuned pe bai'r safle'n cael ei ddatblygu. Dylid nodi bod llai o sylwadau yn y trafodaethau hyn o'i gymharu â'r ddwy drafodaeth gyntaf ac roedd pryderon yn dal i gael eu mynegi am y cynigion yn rhai o'r sylwadau hyn.

Roedd cytundeb eang y dylai'r pryderon a nodwyd yn rhan i) gael eu trin yn llawn wrth ddylunio'r safle a dylid rhoi cyfiawnhad llawn yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd o ran bob mater a godwyd.

Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin, yn nhrefn pa mor aml y'u codwyd (uchaf yn gyntaf) yn cynnwys:

**1. Buddion cymunedol / cytundebau Adran 106 (28 o sylwadau)**

1. Teimlai llawer o gyfranogwyr, os oes rhaid i'r cynigion fynd yn eu blaen, y dylai trigolion lleol elwa'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o'r dyraniadau, naill ai drwy fentrau a ddarperir o fewn y safle neu drwy gyfraniadau ariannol y gellir eu gwneud (e.e. i gynghorau cymuned) neu eu defnyddio i wella gwasanaethau a chyfleusterau yng nghymunedau cyfagos Llanddulas a Llysfaen. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys:-
    - Darparu a gwella mannau gwyrdd agored, gwarchodfeydd natur, teithiau cerdded, llwybrau cŵn gyda seddi ac adfer llwybrau troed presennol.
    - Cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau chwaraeon, clybiau ieuenctid a gweithgareddau ieuenctid (e.e. Gwobr Dug Caeredin, Sgowtiaid, cyfleoedd gwirfoddoli).
    - Darparu cyfleusterau addysg amgylcheddol.
    - Prosiectau ynni cymunedol / biliau ynni gostyngol
    - Cyfleusterau / cynlluniau hanes a threftadaeth i ddathlu'r ardal
    - Gwella'r stoc tai presennol – paneli solar, gwydr dwbl, boeleri newydd ac ati.
    - Gwella Ffordd Clobryn a darparu mwy o gasgliadau sbwriel

**2. Cyfleusterau twristiaeth / hamdden / adloniant newydd ar y safle (25 o sylwadau)**

1. Fel estyniad i bwynt 1, mae ystod eang o sylwadau yn cyfeirio at ddefnyddiau hamdden ac adloniant penodol ar gyfer y safle a fyddai o fudd i dwristiaeth a

thrigolion lleol. Dylid nodi y dylid darparu'r rhain yn lle neu o leiaf fel atodiad i'r defnyddiau arfaethedig presennol. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys:

- Canolfan / cyfleusterau chwaraeon a hamdden – parciau sgrialu, traciau BMX, beiciau baw, gwibgerti, ZipWorld dros y lagŵn, cyrsiau rhaffau / parc antur.
- Chwaraeon awyr agored fel dringo creigiau a chyfleusterau chwaraeon dŵr
- Cyfleusterau a gweithgareddau amgylcheddol fel y prosiect Eden, ysgolion coedwig, cychod gwenyn cymunedol, llwybrau natur a llwybrau cerdded.
- Cyfleusterau treftadaeth ac addysg sy'n dathlu'r Odynau Calch ac archeoleg y safle.
- Fferm solar gymunedol / storfa batris / ynni adnewyddadwy

**3. Defnyddiau amgen (22 o sylwadau)**

1. Roedd rhai sylwadau'n awgrymu na ddylai'r defnyddiau arfaethedig gael eu gweithredu neu y dylent fod yn llawer mwy cyfyngedig a dylid blaenoriaethu'r defnyddiau canlynol:
   - Gwarchodfeydd natur / Gwarchod bywyd gwyllt / mannau gwyrdd / yn ôl i natur
   - Adfer cefn gwlad wyrdd / agored ac ailwylltio
   - Diwydiant ysgafn nad yw'n ddwys
   - Defnyddiau hamdden / twristiaeth (fel yr uchod)
   - Rhandiroedd
   - Cyfleusterau hyfforddiant achub

**4. Dyluniad y safle / camau lliniaru (14 o sylwadau)**

1. Roedd rhai sylwadau'n awgrymu y dylid datblygu cyn lleied ag sy'n bosibl ar ardal 4 er mwyn cyfyngu ar yr effaith ar drigolion (ar ôl adfer). Fel egwyddor, dylid cadw pob gweithgaredd mor bell ag sy'n bosibl oddi wrth dai presennol a dylid defnyddio clustogfeydd ar ffurf llwyni a byndiau i sgrinio'r safle rhag trigolion (gweler y map) yn ogystal â hawliau tramwy cyhoeddus.

**5. Lliniaru effeithiau traffig (12 o sylwadau)**

1. Ategodd sawl sylw bryderon am effaith mynediad a thraffig a dylid cymryd camau i liniaru hyn wrth ddylunio'r safle, yn enwedig mynediad i ardal 4. Byddai angen mwy o fanylion am osodiad ffyrdd er mwyn gwneud sylwadau rhesymol a mynegodd sawl un bryderon ynghylch cyflwr y ffyrdd presennol yn ogystal â ffyrdd newydd posibl. Nododd un bod mynediad y gwasanaethau brys yn hanfodol ac nad yw'n ddigonol i wasanaethu'r safle ar hyn o bryd.

**6. Sylwadau eraill**

1. Roedd 12 sylw yn ailadrodd gwrthwynebiadau sylfaenol i egwyddor y dynodiad ar sail yr angen i adfer y safle ar ôl iddo fod yn safle tirlenwi ac na ddylid cymryd unrhyw gamau eraill. Roedd sawl un yn cwestiynu a oedd asesiadau priodol wedi'u cynnal i gyfiawnhau'r dynodiad (amgylcheddol / ecolegol / ansawdd) a theimlai rhai y dylid sefydlu'r safle fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a bod adleoli'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff yn amhriodol.
2. Roedd 9 o'r sylwadau yn ailadrodd pryderon ynghylch llwch, arogleuon, aflonyddwch sŵn 24 awr, nwy radon, trwytholchion a llygredd a gofynnodd rhai o'r rhain am ragor o wybodaeth / cyfiawnhad ar y materion hyn. Gofynnodd un am well ffensys terfyn i amddiffyn ac atal plant rhag dringo drosodd.
3. Gwnaed 7 sylw pellach yn nodi y dylai unrhyw ynni adnewyddadwy a ddarperir o fewn y cynllun fod o fudd i'r cymunedau lleol.
4. Gwnaethpwyd 6 sylw yn nodi'r cyfleoedd i ddarparu llwybrau teithio llesol / beicio trwy ac o amgylch y safle ac i wella mynediad beicio yn yr ardal yn fwy cyffredinol.

**Casgliadau ac Argymhellion**

O'r 97 a gymerodd ran yn yr ymarfer hwn, mae'n amlwg bod pryderon cryf ynghylch egwyddor y dyraniad arfaethedig, colli tirwedd sydd i'w hadfer ac effaith nid yn unig y defnyddiau bwriedig, ond hefyd y gwaith sydd ei angen i adfer y safle. Pe bai'r safle'n

mynd yn ei flaen, mae ystod eang o awgrymiadau i wneud y safle'n well ac er budd y trigolion presennol wedi'u cyflwyno.

Cydnabyddir bod y cyfranogwyr yn cynrychioli hyd at 3.4% o gyfanswm poblogaethau Llanddulas a Llysfaen a gan hynny, ni ellir cymryd bod canlyniadau'r ymarfer yn ystadegol arwyddocaol nac yn gynrychiolaeth o farn y rhai nad oeddent wedi cymryd rhan. Fodd bynnag, o ystyried pa mor aml a chyffredin oedd y materion a godwyd yn annibynnol mewn digwyddiadau, mae'n bosibl y byddai materion tebyg yn cael eu hadlewyrchu mewn ymarfer ymgysylltu ehangach.

Mae'r materion a godwyd gan y gymuned yn yr adroddiad hwn (yng nghorff yr adroddiad a'r Atodiadau) yn cael eu cyflwyno i CBS Conwy i'w hystyried wrth iddynt baratoi'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd; fel isafswm, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn argymell fod yr holl faterion a godwyd yn cael eu trin, eu cyfiawnhau a'u hegluro yn ymgynghoriad y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, ac yn ddelfrydol bod ymateb yn cael ei baratoi i'r materion a godwyd a'u hanfon at y rhai a gymerodd ran a'i gyhoeddi ar eu gwefan. O ran yr ymgynghoriad sydd i ddod, awgrymodd Cymorth Cynllunio Cymru y dylid cymryd yr argymhellion yn adran 3 i ystyriaeth wrth gynllunio a hysbysebu ymarfer ymgynghori'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.